



# **Y Grŵp Cyngor Technegol / Cell Wybodaeth Covid**

## **Gwybodaeth friffio COVID- 19 ynghylch VOC-21APRIL- 02 (B.1.617.2)**

**21 Mai 2021**



**Y Grŵp Cyngor Technegol a Chell Wybodaeth Covid**  
**Gwybodaeth friffio COVID-19 ynghylch VOC-21APRIL-02 (B.1.617.2)**  
**24 Mai 2021**

**Crynodeb**

Mae'r Amrywiolyn COVID-19 sy'n Peri Pryder "VOC-21APR-02" hefyd yn cael ei alw'n B.1.617.2 ac fe'i nodwyd gyntaf yn India, lle credir ei fod yn gyffredin.

**Pam mae hyn yn peri pryder?****Cyflymder**

- Mae ganddo gyfradd twf uwch o'i gymharu â'r amrywiolyn amlycaf presennol. Mae data cyfredol yn awgrymu bod y gyfradd ymosodiadau eilaidd o'r amrywiolyn B.1.617.2 hefyd yn uwch. Mae dadansoddiad in vitro yn awgrymu y gall B.1.617.2 fod yn fwy effeithlon wrth gael mynediad at gelloedd na B.1.1.7, gan olygu bod ganddo fantais o ran ei allu i dyfu.
- Mae'n ymddangos bod y gyfradd twf ar gyfer B.1.617.2 yn uwch na'r amrywiolyn amlycaf presennol lle y mae'r ddau yn cyd-ddigwydd yn y DU; nid yw'n gwbl sicr pa mor fawr yw'r newid yn nhrosglwyddadwyedd yr amrywiolyn. Ond gall y ffaith bod B.1.617.2 yn fwy trosglwyddadwy olygu y bydd yn cymryd lle'r amrywiolyn amlycaf. Os mai'r ffaith bod B.1.617.2 yn fwy trosglwyddadwy sy'n gyfrifol am y gyfradd twf a welir ar hyn o bryd, gellir disgwyl i hyn arwain at ragor o achosion (a rhagor o dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau) nag a ddisgwylid fel arall gyda B.1.1.7 (hyder uchel).

**Difrifoldeb**

- Nid oes unrhyw wybodaeth o ansawdd uchel ar hyn o bryd am ddifrifoldeb y clefyd, fodd bynnag, os bydd yr amrywiolyn newydd yn arwain at salwch mwy difrifol, gallai hyn arwain at nifer uwch o dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.

**Rheolaeth**

- Ceir tystiolaeth o drosglwyddiadau yn y gymuned heb reolaeth mewn sawl man yn Lloegr, o leiaf yn y Gogledd-orllewin, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Llundain. Ar 19 Mai 2021, mae 28 o achosion y gwyddom amdanynt yng Nghymru, ond bydd y nifer hwn yn cynyddu (hyder uchel).
- Mae'n debygol iawn y bydd achosion a llinachau ar wahân o'r amrywiolyn B.1.617.2 yn cael eu mewnfario i Gymru o Loegr yn ystod y dyddiau a'r wythnosau nesaf (hyder uchel).

- Yn seiliedig ar y twf a welwyd hyd yma, mae'n debygol iawn bod nifer mawr o heintiadau nad ydynt wedi eu canfod o hyd gyda'r amrywiolyn hwn.
- Mae teithio rhyngwladol yn y broses o agor ar hyn o bryd – ond mae'r amrywiolyn hwn eisoes yn bresennol mewn 50 o wledydd o leiaf, ac mae'r dull rhestr goch/oren/werdd yn annhebygol o atal yr haint rhag sefydlu ar raddfa eang<sup>1</sup>.

### **Effeithiolrwydd brechlynnau**

- Mae monitro brechlynnau yn genedlaethol yn dangos gostyngiad yn effeithiolrwydd brechlynnau yn erbyn achosion o heintio symptomatig ar ôl 1 dos o frechlyn ar gyfer B.1.617.2 o'i gymharu â B.1.1.7 (hyder cymedrol). Mae'r data cyfredol yn awgrymu bod hyn yn ostyngiad absoliwt o tua 20% ar ôl 1 dos. Mae effeithiolrwydd brechlynnau yn uwch ac yn debyg rhwng amrywiolion ar ôl 2 ddos gyda gostyngiad bach posibl ar gyfer B.1.617.2 (hyder isel). Er mai arsylwadol yw'r data hyn, ac maent yn destun rhywfaint o ragfarn, maent yn wir ar draws sawl dull dadansoddol. Maent yn gyson ag achosion o'r haint a arsylwyd, ac mae data ar ffug-feirysau a niwtraleiddio feirysau byw yn eu cefnogi<sup>2,3</sup>.
- Nid oes unrhyw ddata i ddangos a oes unrhyw effaith ar atal trosglwyddiadau.
- Nid oes digon o ddata ar effeithiolrwydd brechlynnau yn erbyn salwch difrifol. Yn seiliedig ar ddata niwtraleiddio, disgwylir i frechlynnau barhau'n effeithiol yn erbyn salwch difrifol. Mae'r gwaith monitro yn parhau.

### **Imiwnedd ac achosion o ail-heintio**

- Nid yw astudiaeth carfan cenedlaethol o weithwyr gofal iechyd – astudiaeth sy'n cynnwys dros bedair mil o gyfranogwyr yn y DU – y mae 95% ohonynt wedi derbyn dau ddos o frechlyn, yn dangos unrhyw gynnydd ar hyn o bryd mewn positifedd profion PCR ac mae achosion o ail-heintio yn isel iawn<sup>2,4</sup>.
- Prin yw'r dystiolaeth o achosion mewn poblogaethau sydd wedi'u brechu'n llawn yn Delhi a'r Seychelles ac o heintiadau gyda'r amrywiolyn hwn mewn unigolion a frechwyd yn y DU, ac mae clefyd difrifol a derbyniadau i'r ysbyty mewn unigolion a frechwyd yn parhau'n isel iawn.<sup>5</sup>

### **Beth nad ydyn ni'n gwybod?**

<sup>1</sup> [Gisaid.org - Tracking of variants \(https://www.gisaid.org/hcov19-variants/\)](https://www.gisaid.org/hcov19-variants/)

<sup>2</sup> [Investigation of SARS-CoV-2 variants of concern: technical briefings – GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/investigation-of-sars-cov-2-variants-of-concern-technical-briefings)

<sup>3</sup> [COVID-19 vaccine surveillance report - week 19 \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/87422/covid-19-vaccine-surveillance-report-week-19.pdf)

<sup>4</sup> [Porthol Astudiaeth SIREN \(phe.org.uk\)](https://www.phe.org.uk/about/astudiaeth-siren)

<sup>5</sup> [BBC, Covid: Why has Seychelles seen rising case numbers?](https://www.bbc.com/news/health-56144444)

- Nid ydym yn gwybod yn union beth yw'r gymhareb o ran nifer yr achosion i niwed, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau. Heb wybod hyn, ni allwn wybod pa nifer o achosion fyddai'n arwain at ba nifer o niwed, sy'n golygu nad oes unrhyw sicrwydd i'r llywodraeth wrth ddewis ei llwybr gan ddibynnu ar y parodrwydd i dderbyn risg.
- Nid ydym yn gwybod eto beth yw cyfradd ymosodiadau eilaidd yr amrywiolyn newydd mewn ysgolion, sefydliadau addysg na lleoliadau eraill lle nad yw poblogaethau wedi cael eu brechu – mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.

### **Beth allwn ni ei wneud?**

- Gweithredu'n gynnar, yn fwy caled, yn ehangach ac yn ddyfnach na'r hyn sydd i'w weld yn y data ar yr wyneb.
- Dal ati i frechu. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y dylid gwyro mewn unrhyw fodd oddi wrth y blaenoriaethau presennol o frechu'r boblogaeth ac ynysu unigolion sydd wedi'u heintio.
- Rheoli trefniadau ynysu wrth deithio yn ofalus. Mae'n debygol mai achosion newydd a fewnforir o dramor ac o Loegr yw'r prif sbardun ar hyn o bryd ar gyfer caniatáu i'r amrywiolyn hwn sefydlu yng Nghymru.

Ymhlith y gwahaniaethau cynnil eraill i'w hystyried fel rhan o'r dull, gellid cynnwys:

- Canolbwyntio ar ddefnyddio'r brechlyn sydd ar gael yn yr ardaloedd a'r poblogaethau hynny sydd fwyaf tebygol o brofi achosion o'r amrywiolyn sy'n peri pryder hwn.
- Cyflymu'r broses o ddarparu'r ail ddos o'r brechlyn i'r poblogaethau hynny lle y bo'n bosibl.
- Cynnal ymddygiadau amddiffynnol ac asesiadau risg mewn ysgolion a manau cyhoeddus, a rhannu gwybodaeth am yr ymddygiadau hynny.
- Gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid ar ymyriadau.
- Bod yn ofalus iawn wrth lacio'r cyfyngiadau hyd nes y ceir rhagor o dystiolaeth am drosglwyddadwyedd, difrifoldeb yr haint a dihangiad imiwnyddol.